# MEMORANDWM GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL: DATGANOLI, CYMRU

**Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008** (a enwyd gynt yn Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 3) 2007

# Cynnig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynglŷn â Phlant Hawdd eu Niweidio a Thlodi Plant

**Rhagarweiniad**

1. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”) yn rhoi'r pŵer i'w Mawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, i roi cymhwysedd deddfwriaethol sy'n parhau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad”) ddeddfu drwy Fesur Cynulliad ar faterion penodedig. Caiff Mesurau Cynulliad wneud unrhyw ddarpariaeth y gallai Deddf Seneddol ei gwneud (ac o'r herwydd gall addasu deddfwriaeth bresennol a gwneud darpariaeth newydd), yn unol â'r cymhwysedd a roddir i'r Cynulliad ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf 2006.

2. Mae'r ddogfen sydd ynghlwm yn Orchymyn arfaethedig yn y Cyfrin Gyngor. Mae'n gosod materion y bwriedir eu hychwanegu at gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Er mwyn gwneud hynny, bydd angen i Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor gael ei wneud gan Ei Mawrhydi yn dilyn cymeradwyo drafft o'r Gorchymyn gan y Cynulliad a chan ddau Dŷ'r Senedd.

3. Cafodd y memorandwm hwn ei baratoi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n esbonio cefndir a chyd-destun y Gorchymyn arfaethedig yn y Cyfrin Gyngor.

**Y cefndir**

4. Bydd pwerau deddfwriaethol newydd o ran y “materion” penodedig yn galluogi'r Cynulliad i basio Mesurau, a seilir ar flaenoriaethau ac amserlenni yng Nghymru. Bydd y Mesurau hyn yn destun craffu trylwyr a chymeradwyaeth gan y Cynulliad.

5. Mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldebau eang eu hystod sy'n ymwneud â maes Lles Cymdeithasol. Mae gan awdurdodau lleol a'u partneriaid statudol yng Nghymru gyfrifoldeb dros ddiogelu, hyrwyddo a sicrhau llesiant pob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rhai a all fod yn hawdd eu niweidio - yn enwedig y rhai sydd mewn angen; plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ceisio meithrin, drwy ddarpariaeth benodol i Gymru mewn Mesurau Seneddol a thrwy ddefnyddio ei phwerau is-ddeddfwriaeth, ddull gwahanol o weithredu sy'n ymateb i amgylchiadau Cymru ac anghenion plant yng Nghymru.

6. Wrth wraidd polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n hawdd eu niweidio, ac ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant y mae pedwar cyhoeddiad allweddol a amlinellir isod. Mae rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys ymrwymiad i lunio atebion, a'r rheini'n benodol i Gymru, i dlodi plant (a'r tlodi a brofir gan y teuluoedd a'r cymunedau hynny lle mae plant tlawd yn byw); ac i integreiddio strategaethau drwy ddiwygio a chydgrynhoi'r gyfraith ynglŷn â lles pob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys plant hawdd eu niweidio. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn gyfrwng angenrheidiol i gyflawni'r ymrwymiadau hyn.

7. *Gweithredu'r Hawliau* [1] yw polisi cyffredinol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Wrth wraidd iddo y mae saith nod craidd, sef bod plant a phobl ifanc:

- yn cael dechrau da mewn bywyd
- yn cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysg
- yn mwynhau'r iechyd gorau posib, yn rhydd o gamdriniaeth, erledigaeth ac ecsploetiaeth
- yn gallu cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
- yn cael eu trin gyda pharch, yn cael pobl i wrando arnynt, gan gydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol
- yn byw mewn cartref a chymuned ddiogel sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol
- ddim dan anfantais oherwydd tlodi.

Mae'r rhain wedi'u seilio ar nifer o themâu craidd:

- sylfaen egwyddor yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- hawliau i gael gwasanaethau a'r hawliau hynny wedi'u seilio ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc;
- gwrando ar sylwadau plant, pobl ifanc a theuluoedd a gweithredu yn ôl y sylwadau hynny;
- rhoi'r flaenoriaeth uchaf i'r rhai y mae'r angen mwyaf arnynt, gan gydnabod bod plant mewn gofal yn grŵp sydd o dan anfantais arbennig; ac
- ymrwymiad gan wahanol gyrff lleol i weithio mewn partneriaeth fel yr unig ffordd y gellir gwireddu'r dyheadau hyn.

[1] Gweithredu'r Hawliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005

8. Yn y ddogfen *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*[2], strategaeth ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru dros y deng mlynedd nesaf a'r ddogfen *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell*[3], nodwyd bwriadau polisi a chamau cynnar Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at wneud diwygiadau graddol i foderneiddio gwaith cyflwyno gwasanaethau i blant hawdd eu niweidio a chyflymu gwelliannau mewn polisïau a chanlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

9. Yn *y Cynllun Gweithredu yn erbyn Tlodi ymhlith Plant* a cherrig milltir cysylltiedig a'r papur targedau - *Dileu Tlodi Plant yng Nghymru - Mesur Llwyddiant -* nodwyd atebion a chamau penodol i integreiddio polisïau a rhaglenni i ddileu tlodi plant yng Nghymru erbyn 2020, gan adeiladu ar y rhaglenni gwrthdlodi presennol sy'n bodoli eisoes megis Dechrau'n Deg, Cymorth a Chymunedau'n Gyntaf. Mae mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol ymhlith plant a phobl ifanc wrth galon strategaeth ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella ansawdd bywyd, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydraddoldeb cyfle i bob cymuned yng Nghymru.

10. Mae gwahaniaeth cynyddol rhwng Cymru a Lloegr o ran dull gweithredu ym meysydd polisi, cynllunio a chyflenwi gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Yr oedd Deddf Plant 2004 yn arwydd o newid sylweddol i ddull teilwredig o weithredu yng Nghymru i gyflawni'n hagenda neilltuol ar gyfer plant a phobl ifanc. Nid oes unrhyw Ymddiriedolaethau Plant yng Nghymru, ac ni fu'n ofynnol i awdurdodau lleol Cymru greu un cyfarwyddwr dros wasanaethau plant. Yn lle hynny, mae gan gyfarwyddwyr ac aelodau arweiniol mewn llywodraeth leol a'r GIG gyfrifoldeb dros weithio mewn partneriaeth drwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Mae lles plant hawdd eu niweidio yng Nghymru a gwaith darparu gwasanaethau iddynt yn gyfrifoldeb 22 o awdurdodau lleol sy'n gweithio'n gydffiniol â 22 o fyrddau iechyd lleol a 14 o Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) i asesu anghenion lleol ar draws eu priod ardaloedd a chynllunio ar gyfer yr anghenion hynny. Y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Swyddogion Addysg sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau yn eu hardaloedd. Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc (22 ohonynt) yw'r prif gyrff sy'n gyfrifol am gyd-drefnu a goruchwylio gwaith i lunio cynllun sengl strategol ynghylch sut y caiff llesiant plant yn eu hardal ei wella i fod yn sail i'r broses o gyflenwi, comisiynu, cyfuno adnoddau a gwasanaethau ar draws y bartneriaeth. Nid oes gan Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc unrhyw gyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol.

11. Mae polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru "Tuag at Fywyd Sefydlog" a roddir ar waith o fis Gorffennaf 2007 yn bolisi unigryw ar gyfer plant mewn gofal yng Nghymru sydd wedi'i deilwra i adlewyrchu amgylchiadau ac atebion lleol. Mae'n dangos ymhellach yr angen i Gymru gaffael pwerau i fynd i'r afael â blaenoriaethau Cymru a materion sy'n ymwneud â Chymru. Mae'r cyfyngiadau ar y setliad presennol yn cyfyngu ar ein gallu i gyflwyno'r ystod o

---

[2] Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol - Strategaeth ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru dros y Degawd Nesaf, LlCC (2007).
[3] Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007).

ddarpariaethau cydlynol yr hoffem eu gweld ac a fyddai'n gwneud gwahaniaeth i blant hawdd eu niweidio yng Nghymru, a'r rheini'n ddarpariaethau a fyddai wedi'u seilio ar gamau atal ac ar gymorth i rieni yn ogystal â phlant.

12. Mae'r Gorchymyn yn cwmpasu lles pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru hyd at 25 mlwydd oed, gyda mân eithriadau o ran ymadawyr gofal penodol. Mae plant hawdd eu niweidio wedi'u diffinio yn y Gorchymyn sy'n eang ei gwmpas er mwyn ymwneud ag anghenion ystod amrywiol o blant: unrhyw blentyn mewn angen (gan gynnwys plant anabl neu blant sy'n sâl iawn), plant sydd ar ymylon gofal, mewn gofal, neu sydd wedi gadael gofal. Mae wedi'i ddrafftio yn y fath fodd ag i gynnwys cymorth i rieni y mae'n bosibl bod arnynt angen cymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl, camddefnydd o sylweddau, anabledd dysgu, tlodi neu broblemau eraill a all effeithio ar gyfleoedd a llesiant plentyn. Mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau uniongyrchol ar hyn o bryd i ryw 24,000 o blant mewn angen a chynorthwyir plant a theuluoedd eraill drwy raglenni sydd wedi'u seilio ar ardaloedd, sef rhaglenni megis Dechrau'n Deg a Chynllun Grant Cymorth. Mae "plant sy'n derbyn gofal" yn cynnwys plant yng ngofal awdurdodau lleol yng Nghymru (4,800) a'r rhai sy'n gadael gofal (1,600) y mae gan Lywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol gyfrifoldebau unigryw drostynt fel rhieni corfforaethol y grŵp hwn sy'n arbennig o hawdd ei niweidio. Mae rhyw 28% (170,000) o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi ar aelwydydd y mae eu hincwm islaw'r canolrif o 60%.

13. Mae swmp mawr o ddeddfwriaeth yn bodoli bellach ynglŷn â lles plant a phobl ifanc, mae'n dameidiog ac wedi'i diwygio gan lawer o Ddeddfau Seneddol ac amryw Orchmynion a Rheoliadau, a wnaed ar gyfer Cymru a Lloegr neu ar gyfer Cymru yn unig. Mae anghysondebau hefyd rhwng meysydd deddfwriaeth, sy'n golygu bod gwahanol grwpiau o bobl ifanc yn cael gwahanol lefelau o wasanaeth ar sail eu statws yn hytrach na'u hangen. Bydd y Gorchymyn yn caniatáu diwygio a chydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â phlant hawdd eu niweidio, gan ddod â'r darpariaethau a wnaed dros y blynyddoedd at ei gilydd a'u had-drefnu. Bydd yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau mwy o eglurder i lywodraeth leol a'i phartneriaid ynglŷn â'u dyletswyddau i hyrwyddo lles cymdeithasol i bob plentyn a pherson ifanc, yn enwedig y rhai sy'n fwyaf hawdd eu niweidio, gan gynnwys plant mewn tlodi.

14. Gan adeiladu ar strategaeth 10-mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, y bwriad yw ymgynghori (yn 2008) ynghylch cynigion ar gyfer deddfwriaeth i roi strategaeth ar waith ar gyfer plant hawdd eu niweidio a fyddai'n gweithredu yng nghyd-destun y Partneriaethau statudol newydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.[4]. Bydd y Gorchymyn yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno cynigion cydlynol ar gyfer deddfwriaeth gan wybod y bydd gan y Cynulliad y pwerau angenrheidiol i roi ar waith newidiadau yn y gyfraith ynglŷn â lles plant a phobl

[4] Adran 25 Deddf Plant 2004 - Cyfrifoldeb partneriaethau i gydweithredu ym maes llesiant plant a phobl ifanc.

ifanc, yn enwedig er mwyn sicrhau'r pwyslais cryfach ar gynorthwyo teuluoedd ac ar gamau atal sydd eisoes wedi'u nodi fel thema allweddol.

15. Mae angen pwerau ychwanegol yn y maes hwn er mwyn goresgyn y cyfyngiadau deddfwriaethol presennol a'i gwneud yn bosibl i gyflwyno atebion Cymreig er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau a nodwyd uchod. Mae'r terfynau deddfwriaethol presennol wedi cyfyngu ar y broses o lunio a gwella polisïau ynghylch plant sy'n derbyn gofal i ddiwallu anghenion Cymru; ac mae hyn wedi arwain at sefyllfa lle nad yw amcanion bob amser yn cael eu gwireddu'n llawn. Bydd y Gorchymyn yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i'r Cynulliad i ddiwygio'r gyfraith ynghylch plant hawdd eu niweidio a thlodi plant er mwyn:

*(i) ad-drefnu a chydgrynhoi'r darpariaethau presennol ar gyfer plant hawdd eu niweidio;*

*(ii) diwygio'r gyfraith er mwyn darparu fframwaith cyfreithiol i roi ar waith gydrannau allweddol o bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant hawdd eu niweidio yng Nghymru;*

*(iii) cymryd camau i osod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i ddangos eu cyfraniad at roi terfyn ar dlodi plant; a*

*(iv) creu hawl statudol i gael gofal plant di-dâl i blant dwy flwydd oed y mae'r angen mwyaf arnynt.*

16**.** Bydd y Gorchymyn yn darparu fframwaith cyfreithiol hefyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru fwrw ymlaen â'i chynigion i fynd i'r afael â thlodi plant, yn enwedig i ategu'r trefniadau i wneud taliad atodol i gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant ar gyfer categorïau penodol o blant, a threfniadau penodol i awdurdodau lleol Cymru hybu cynilion plant yng Nghymru.

**Cwmpas**

17. Mae'r Gorchymyn yn gais am roi pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) i wneud Mesurau Cynulliad ynghylch lles pob plentyn a pherson ifanc gan gynnwys plant hawdd eu niweidio ac am fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru, drwy ychwanegu materion at Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Mae cwmpas y Gorchymyn wedi'i lunio yn y fath fodd ag i alluogi'r Cynulliad i ddiwygio a chydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer plant mewn angen, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Byddai'n caniatáu newidiadau i gynnal lles grwpiau ehangach o blant (hyd at 25 mlwydd oed), nid yn unig y rhai sy'n cael eu categoreiddio'n blant "sy'n derbyn gofal" neu'n "blant mewn angen". Bydd yn cwmpasu, er enghraifft, unrhyw blentyn a'i ofalwr (rhiant) sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol a gall ymestyn o warchod plant i ddosbarthiadau rhianta a phob gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu o dan raglenni Dechrau'n Deg a Chynllun Cymorth. Mae wedi'i lunio hefyd yn y fath fodd ag i gwmpasu cymorth i deuluoedd plant a fyddai mewn perygl o ddod yn blant mewn angen pe na baent wedi cael gwasanaeth. Mae'n cynnwys dyletswyddau cyffredinol awdurdodau lleol a

dyletswyddau cyffredinol eu partneriaid i ddiogelu a hybu llesiant pob plentyn yn eu hardal gan gynnwys darpariaethau a chamau penodol o ran mynd i'r afael â thlodi plant.

18. Ar y cyfan byddai'r materion sydd wedi'u nodi yn y Gorchymyn yn ymdrin â gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd o dan Rannau 2 a 3 ac Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989. Byddent yn rhychwantu hefyd gyfrifoldebau awdurdodau lleol dros wasanaethau cyn ysgol a gwasanaethau eraill o ran gwarchod plant a gofal plant sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd o dan raglen Dechrau'n Deg a rhaglen Cymorth. Y ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â phlant hawdd eu niweidio ac sydd o fewn cwmpas y materion hyn yw'r pŵer i roi grantiau at ddibenion lles o dan Ddeddf Addysg 2002, Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002, Deddf Safonau Gofal 2000, Deddf Plant 2004 a deddfwriaeth gofal cymunedol i'r graddau y mae'r rhain yn ymwneud â swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant anabl a'r rhai sy'n gofalu amdanynt a hefyd â phlant sydd eu hunain yn ofalwyr oedolion anabl.

19. Fel a amlinellir uchod, ym maes lles cymdeithasol y mae'r prif welliant, er bod materion cysylltiedig ym meysydd addysg a hyfforddiant, a chwaraeon a hamdden, y mae tystiolaeth yn dangos eu bod yn gydrannau allweddol o ddatblygiad a llesiant cymdeithasol plentyn a pherson ifanc. Mae dyletswyddau trawsffiniol mewn perthynas â Chymru a Lloegr yn cael eu diogelu. Wrth ystyried materion mae'n bwysig cydnabod bod y materion hyn yn gysylltiedig a bod rhaid eu hystyried yn eu holl agweddau oherwydd y gall gwasanaethau a swyddogaethau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc hawdd eu niweidio a gall un neu fwy o'r materion ar draws y tri maes eu cwmpasu.

**Maes 5 – Addysg a Hyfforddiant**

20. Mater 5.18 – Byddai hwn yn galluogi’r Cynulliad i ddeddfu mewn perthynas â'r agweddau hynny ar gynllun Dechrau'n Deg a chynllun Cymorth sy'n cynnwys darparu cyfleusterau a gweithgareddau sy'n addysgol eu natur. Byddai'n ymdrin hefyd â chynlluniau cysylltiedig eraill sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol a'u partneriaid i wella datblygiad a lles plant a phobl ifanc.

**Maes 15 – Lles Cymdeithasol**

21. Mae Materion 15.2 a 15.6 yn ymwneud â’r dyletswyddau cyffredinol o ddiogelu a hybu llesiant pob plentyn a pherson ifanc a rhoi cymorth i'w teuluoedd. Bydd hyn yn ymdrin â chyfrifoldebau eang a phenodol awdurdodau lleol a phartneriaid statudol (ac unigolion) a dyletswyddau i gydweithredu (sydd ar unigolion a chyrff) er mwyn diogelu a hybu lles pob plentyn yng Nghymru a lleihau anghydraddoldeb i sicrhau eu bod yn ddiogel a bod ganddynt y cyfleoedd bywyd gorau. Mae 15.2 yn ymdrin â swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus: byddai hyn yn cynnwys cyrff neu bersonau sy'n gweithredu'r swyddogaethau hynny'n uniongyrchol neu ar ran awdurdod cyhoeddus (er enghraifft, y sector gwirfoddol a'r sector annibynnol) wrth gyflawni eu swyddogaethau hwy i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc yn eu hardal. Mae Mater 15.2 wedi’i gyfyngu i swyddogaethau

awdurdodau cyhoeddus.  Fe’i gwnaed yn glir nad yw’r Gorchymyn hwn yn rhoi cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddileu’r amddiffyniad o gosb resymol mewn perthynas â thramgwydd ymosod cyffredin pan fo’r ymosodiad yn un yn erbyn plentyn.

22. Mae 15.2(c) yn ymwneud yn benodol â llesiant unrhyw blentyn neu berson ifanc y gall fod arno angen cymorth a fyddai'n angenrheidiol i sicrhau na fyddent yn cael eu rhoi dan anfantais drwy agweddau ar dlodi plant neu anghydraddoldeb gwahanol grwpiau, er enghraifft, gwasanaethau i blentyn anabl a chymorth i 'fyw'n annibynnol' ar gyfer personau anabl iau.

23. Mae'r llinell ar ôl 15.2(c) yn ei gwneud yn glir nad yw Mater 15.2 yn rhychwantu swyddogaethau cyrff cyhoeddus nad ydynt wedi'u datganoli, er enghraifft: y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, yr Heddlu a'r Llysoedd. Er hynny, mae Mater 15.6 yn cwmpasu, yn ychwanegol at hynny, y cyrff  sydd heb eu datganoli ac a bennwyd yn 15.6 (b) i (g), ond dim ond mewn perthynas â chydweithredu a threfniadau i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc. Mae cwmpas Mater 15.6 wedi’i gyfyngu i gydweithredu a threfniadau. Ni all Mater 15.5 osod unrhyw swyddogaethau newydd y tu allan i gwmpas y mater ar y cyrff sydd wedi’u rhestru; er hynny, mae'n rhoi cyfle i addasu'r trefniadau ar gyfer cydweithredu mewn ymgynghoriad â hwy.

24. Yn ychwanegol at y Mater 15.7 uchod yn benodol, mae'n ymdrin â'r dyletswyddau sydd ar yr awdurdod lleol fel yr asiantaeth arweiniol yn y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc i sicrhau bod cynlluniau strategol yn cymryd i ystyriaeth eu dyletswyddau i hyrwyddo llesiant a'u bod yn cynnwys unrhyw drefniadau newydd ar brawfesur polisïau ar Dlodi Plant.   Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau megis gwarchod plant a gofal dydd a dyletswyddau penodol mewn perthynas â phlant mewn gofal sy'n hawdd eu niweidio gan gynnwys addysg ac iechyd ond mae'n rhoi digon o hyblygrwydd ar gyfer unrhyw drefniadau cymorth gwahanol a threfniadau eraill y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ddymuno eu cyflwyno yng Nghymru.

25. Mater 15.3 – Gwasanaethau Mabwysiadu a Gwasanaethau Cynnal Gwarchodaeth Arbennig - mae'n cynnwys pob swyddogaeth ddatganoledig mewn perthynas â mabwysiadu: trefniadau cyhoeddus a phreifat gan gynnwys rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau ac unigolion sy'n gweithio yn y gwasanaeth, cymorth ar ôl mabwysiadu.  Nid yw'n ymdrin ag unrhyw newid i broses y llys ar gyfer mabwysiadu na'r gyfraith mewn perthynas â lleoli ar gyfer mabwysiadu. Diben hyn yw sicrhau ein bod yn diogelu'r cysyniad a'r system unedig ar gyfer mabwysiadau ledled Cymru a Loegr.  Mae'n ymdrin ag ystod lawn dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwasanaethau cynnal y mae gan y rhai sy'n ymwneud â'r trefniadau Gwarchodaeth Arbennig newydd hawl i'w cael.

26. Mater 15.4 – Maethu – mae’n ymdrin â phob swyddogaeth mewn cysylltiad â threfniadau cyhoeddus a phreifat ar gyfer maethu.  Mae hyn yn cynnwys rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau ac unigolion sy'n gweithio yn y gwasanaeth, gan gynnwys newid y ffordd y mae gofalwyr maeth yn cael eu rheoleiddio a'u cynnal.

27. Mater 15.5 – Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol – mae'n darparu cymhwysedd mewn perthynas ag unrhyw wasanaeth sy'n dod o fewn y diffiniad ac sy'n cael ei ddarparu i'r rhestr o bobl a nodir yn 15.5 (a) i (d). Mae'r rhestr hon o bobl yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| 15.5(a) ac (c) | pob plentyn a phlant a phobl ifanc hyd at 25 mlwydd oed |
| 15.5(b) | unrhyw bersonau sy'n gofalu, neu sydd ar fin gofalu, am blant a phobl ifanc, er enghraifft: rhieni, aelodau o'r teulu, darpar fabwysiadwyr, gofalwyr maeth etc |
| 15.5(d) | gwasanaethau i ymadawyr gofal. |

28. Nid yw'r gwasanaethau a ddarperir i grwpiau sydd ar y rhestr yn swyddogaethau cyfyngedig a gyflawnir gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae Mater 15.5 yn cwmpasu darpariaeth gofal cymdeithasol eang ar draws ystod o gyrff cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaethau ar eu rhan. Yn fwy eang, mae Mater 15.5(b) yn ymwneud â dyletswyddau awdurdodau lleol i'r rhai sydd mewn gofal neu y gofalwyd amdanynt (gan gynnwys plant sy'n cael eu lletya dros dro o dan drefniadau cyfiawnder ieuenctid) a/neu y mae llety'n cael ei ddarparu iddynt (ddim o reidrwydd gan awdurdodau lleol: mae hyn yn rhychwantu trefniadau preifat), mewn gofal maeth, gofal preswyl (cartrefi plant, ysgolion etc), lleoliadau gofal diogel a lleoliadau eraill, gan gynnwys y rhai mewn gofal o dan orchymyn llys a/neu drefniadau gwirfoddol. Mae Mater 15.5(d) yn estyn cymorth y tu hwnt i 25 oed i'r rhai sy'n gadael gofal o dan amgylchiadau lle maent yn ymgymryd â chwrs addysg neu hyfforddiant. Mae'n ymdrin hefyd â dyletswyddau awdurdodau lleol i ddarparu ystod o gymorth a gwasanaethau (gan gynnwys llety) i bobl sy'n gadael gofal, gan gynnwys cymorth ariannol a chostau byw i bobl sy'n gadael gofal ac sy'n ceisio cael gwaith cyflogedig ac i'r rhai sy'n ymgymryd ag addysg a hyfforddiant. Mae gwasanaethau i bobl sy'n gadael gofal yn cynnwys cyfle i weld cynghorydd personol i gadw cynllun llwybr a chymorth ehangach ynglŷn â chyfraniadau at dreuliau a llety i'r rhai sy'n ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant.

29. Mae Mater 15.5, o'i gymryd ynghyd â Materion 15.2 a 15.6, hefyd yn ymdrin â dyletswyddau awdurdodau lleol a'u partneriaid o dan adran 24 o Ddeddf Plant 1989 i roi cyngor a chymorth i gategori o blant a phobl ifanc, sy'n gorgyffwrdd â'r rhai sydd wedi bod yn derbyn gofal ond sy'n ddosbarth ehangach, sy'n cynnwys y rhai sydd wedi bod mewn llety awdurdod lleol ond am gyfnod nad oedd yn ddigon hir, y rhai y gofalwyd amdanynt gan neu ar ran cyrff gwirfoddol, y rhai y gofalwyd amdanynt gan un o nifer o wahanol gyrff iechyd am gyfnod o fwy na thri mis, y rhai a fu'n ddarostyngedig i orchymyn Gwarchodaeth arbennig a'r rhai sydd wedi'u maethu'n breifat.

30. Mae'r Materion hyn yn ymestyn hefyd i reoleiddio ac arolygu gwasanaethau (y rhai sy'n bodoli eisoes neu rai newydd) a'r gweithlu mewn cartrefi plant, gwasanaethau maeth a gwasanaethau eraill p'un a ydynt yn cael eu darparu gan unigolion a chyrff. Cwmpesir swyddogaethau sicrhau diogelwch ac ansawdd gofal, h.y. swyddogaethau'r Bwrdd Lleol er Diogelu

Plant a'r rhai yr ymgymerir â hwy ar hyn o bryd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chyngor Gofal Cymru fel y bônt yn gymwys i wasanaethau i blant a phobl ifanc. Gall Mater 15.4(b) gynnwys cymorth i'r teulu ehangach a chyfeillion sy'n ofalwyr (a elwir gofal gan berthnasau yn gyffredin) a gofalwyr maeth. Mae'n ymdrin hefyd â chymorth uniongyrchol i'r rhieni pan fo'n bosibl y buasai'r plentyn mewn perygl pe na bai'r gwasanaeth wedi'i ddarparu; er enghraifft, ailuno plentyn mewn gofal â'i deulu biolegol.

31. Mae'r materion hyn hefyd yn cwmpasu cymorth lles eang i blant a theuluoedd o dan yr agenda atal a lleihau tlodi, pan fo'n bosibl y byddai'r plentyn wedi cael ei ystyried yn blentyn mewn angen pe na bai'r gwasanaeth wedi'i ddarparu i'r teulu neu'r brodyr neu'r chwiorydd. Maent yn cynnwys cymorth awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau gwarchod plant cyn ysgol, gwasanaethau gofal plant a gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd o dan gynllun Dechrau'n Deg a chynllun Cymorth. Maent yn rhoi cyfle hefyd i awdurdodau lleol i roi cymorth ariannol gan gynnwys cyfraniadau at gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant a lleoedd gofal plant am ddim i bawb, neu ar gyfer categorïau rhagnodedig o blant yng Nghymru**.**

32. Mae Mater 15.7 yn cwmpasu unrhyw gynllunio gan awdurdodau lleol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau llesiant. Yn benodol, y ‘cynllun sengl ar gyfer plant a phobl ifanc’ mewn perthynas â'u llesiant o dan Ddeddf Plant 2004. Bydd Mater 15.7 yn gwneud defnydd helaeth o'r dyletswyddau yn 15.4 sydd ar bartneriaid i gydweithredu a chyfrannu at y cynllun i sicrhau llesiant plant a phobl ifanc. Mae'n rhoi cyfle hefyd ar gyfer deddfwriaeth ynghylch cynlluniau prawfesur polisïau ar dlodi plant.

3. Mae Mater 15.8 yn ymdrin â swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru, gan gynnwys rôl benodol ei swyddfa mewn perthynas ag adolygu a monitro trefniadau cyrff cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer cwynion, eiriolaeth a chwythu'r chwiban, sef awdurdodau lleol yn bennaf ond hefyd y GIG a Byrddau Iechyd Lleol. Mae'n cwmpasu cyfrifoldeb eang y Comisiynydd dros les bob plentyn a pherson ifanc ac achosion unigol y caiff y Comisiynydd eu hystyried.

**Maes 16 – Chwaraeon a Hamdden**

34. Bydd Mater 16.1, o’i gymryd ynghyd â Mater 5.18, yn galluogi’r Cynulliad i ddeddfu gyda golwg ar yr agweddau hynny ar gynllun Dechrau’n Deg a chynllun Cymorth sy’n rhychwantu cyfleusterau a gweithgareddau ym maes hamdden a chwaraeon sydd wedi’u hanelu at fynd i’r afael ag anfantais gymdeithasol ymhlith plant a phobl ifanc.

**Dehongli**

35. Mae'r rhain yn hunanesboniadol. Mae'r diffiniad o lesiant wedi'i gymryd o Ddeddf Plant 2004 fel cyfraith ddatganedig y mae awdurdodau cyhoeddus,

ymarferwyr a'r llysoedd yn ei deall yn dda. Mae'r diffiniad, serch hynny, wedi'i estyn yn (f) i gynnwys sicrhau'r hawliau. Diben hyn yw rhoi mwy o bwyslais ar lais y plentyn fel rhywbeth sy'n hollbwysig i'w lesiant ac mae'n cydnabod y cysyniad pwysig o hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sydd wrth wraidd holl bolisïau a rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae cwmpas eang i'r term 'plant hawdd eu niweidio' i ymdrin â'r plant hynny y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt i sicrhau bod eu hanghenion lles yn cael eu diwallu. Mae'n tynnu gwahaniaeth clir rhwng cyfrifoldeb awdurdodau cyhoeddus i poblogaeth ehangach plant a phobl ifanc a'r rôl ychwanegol y bydd ganddynt o ran rhoi cymorth ar gyfer anghenion lles grwpiau hawdd eu niweidio megis y rhai sydd mewn angen, y rhai sydd mewn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a phlant anabl. Ychwanegiad newydd at y Gorchymyn yw'r diffiniad a gynhwyswyd o awdurdodau cyhoeddus a hwnnw'n ddiffiniad sy'n ei gwneud yn glir mai'r man cyfeirio i ddeall rhychwant y term yw Deddf Hawliau Dynol 1998.

**Tablau o Eithriadau – Priffyrdd a Thrafnidiaeth / Lles Cymdeithasol**

36. Pan fyddai modd dehongli mater fel arall i olygu ei fod yn ymdrin â phwnc nad oedd yn fwriad i'r Cynulliad gael cymhwysedd deddfwriaethiol mewn perthynas ag ef, mae'n angenrheidiol diffinio'r mater yn y fath fodd ag i beidio â chynnwys y pwnc hwnnw. Mae rhestru'r pynciau hynny fel eithriadau'n un ffordd o wneud hynny. Mae colofn gyntaf y tablau ym mharagraff 5 yn nodi eithriadau i'r Materion a restrir yn yr ail golofn. Mae'r tabl ar Briffyrdd a Thrafnidiaeth yn ailddatgan yr eithriadau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006 fel y'i diwygiwyd. Cafodd Mater 5.18 ei ychwanegu fel Mater y mae'r eithriadau o ran trafnidiaeth yn gymwys iddo, oherwydd gellir ystyried bod trefniadau trafnidiaeth yn rhesymol gysylltiedig â'r mater, er nad yw Mater 5.18 yn cyfeirio'n benodol at drafnidiaeth. .

37. Mae'r tabl o eithriadau ar gyfer **Lles Cymdeithasol** yn egluro'r hyn nad yw wedi'i gynnwys yn y materion sydd wedi'u rhestru yn y Gorchymyn hwn. Mae'r eithriadau hyn yn cynnwys: cymorth i blant (h.y. trefniadau ar gyfer darparu cynhaliaeth gan ddau riant y plentyn), credydau treth, budd-dal plant, lwfans gwarcheidwad, nawdd cymdeithasol, Motability, Taliadau Niwed drwy Frechlyn, Cronfeydd Byw'n Annibynnol a Bwydydd Lles. Nid yw Materion 15.2, 15.4 a 15.5 yn cynnwys cynllun cyffredinol cronfeydd ymddiriedolaeth plant ond maent yn cynnwys taliadau i gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant a wneir gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau lleol yng Nghymru. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni ymrwymiad a wnaed cyn yr etholiad i wneud talu cyfraniadau gan awdurdodau lleol Cymru at gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant plant sy'n derbyn gofal yn ddyletswydd statudol (mae'n gweithredu ar hyn o bryd fel cynllun gwirfoddol, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru); a bydd yn ymdrin hefyd â'r trefniadau sy'n angenrheidiol i gyflawni ymrwymiad maniffesto sy'n ymwneud â chyfraniadau at gynilion hirdymor i blant mewn perthynas â thlodi plant.

**Newidiadau i'r GCD yn sgil y craffu arno cyn y broses ddeddfu**

38. Dim ond mân newidiadau sydd wedi'u gwneud yn y Gorchymyn drafft hwn, o'i gymharu â'r Gorchymyn arfaethedig a osodwyd gerbron y Cynulliad a'i gyflwyno i'r Senedd er mwyn iddi graffu arno cyn y broses ddeddfu ym mis Mawrth/Ebrill 2008. Mae'r newidiadau yn cymryd i ystyriaeth yr argymhellion a wnaed ar ôl i'r Pwyllgor Materion Cymreig a Phwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru graffu arno cyn y broses ddeddfu.

39. Prif effaith y newidiadau yw diffinio'n fanylach ar wyneb-ddalen y Gorchymyn y materion y bydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd uwch mewn perthynas â hwy a gwneud yn glir ym mha fodd y maent yn gymwys i'r graddau y mae cyrff sydd heb eu datganoli o dan sylw. Mae'r mân newidiadau technegol yn cynnwys ailrifo'r Materion. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2008, sy'n ymwneud â thaliadau a godir am wasanaethau gofal cartref, yn mewnosod Mater 15.1 ym Maes 15 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O ganlyniad, mae'r Gorchymyn Plant Hawdd eu Niweidio wedi'i ailrifo.

40. Yn yr achosion hynny lle gwnaed argymhellion na chafodd eu hymgorffori yn y Gorchymyn drafft, ystyriwyd pob un yn ofalus. Mewn achosion penodol, megis y cynigion i gyfeirio at chwarae, chwythu'r chwiban a thlodi plant, daethpwyd i'r casgliad mai effaith bosibl cynnwys cyfeiriadau penodol o'r fath fyddai meinhau'r Materion yn y Gorchymyn neu greu ansicrwydd ynghylch eu dehongli.

**Effaith darpariaethau eraill Deddf 2006**

41. Mae angen ystyried effaith y Gorchymyn hwn yng nghyd-destun darpariaethau cyffredinol Deddf 2006.

**Terfynau daearyddol unrhyw Fesur Cynulliad**

42. Mae adran 93 o Ddeddf 2006 yn darparu na fydd unrhyw Fesur Cynulliad yn gyfraith os bydd yn gymwys ac eithrio o ran Cymru, neu os bydd yn rhoi, gosod, addasu neu dynnu swyddogaethau y gellir eu harfer ac eithrio o ran Cymru (neu'n rhoi pŵer i wneud hynny). Mae eithriadau cyfyngedig ar gyfer mathau penodol o ddarpariaethau atodol, er enghraifft, darpariaeth sy'n briodol i wneud darpariaethau'r Mesur yn effeithiol, darpariaeth sy'n galluogi darpariaethau'r Mesur i gael eu gorfodi a darpariaeth sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall.

43. Mae'r cyfyngiad ynghylch swyddogaethau ac eithrio o ran Cymru yn golygu na fyddai'r Cynulliad yn gallu rhoi swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â Chymru i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol Cymru nac unrhyw awdurdod cyhoeddus arall.

**Swyddogaethau Gweinidog y Goron**

44. Mae nifer o feysydd deddfwriaeth sy'n ymwneud â lles plant hawdd eu niweidio ac sy'n parhau i fod yn gyfrifoldeb Gweinidogion y DU, megis y

gofynion bod enwau'r rhai y bernir eu bod yn anffit i weithio gyda phlant yn cael eu rhoi ar restr a gedwir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelu Plant 1999. Yn rhinwedd rhan 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, ni chaiff y Cynulliad drwy Fesur newid unrhyw un o swyddogaethau Gweinidog y Goron heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Hyd yn oed pan nad ydynt yn dod o dan un o'r eithriadau a restrwyd uchod, bydd yn dal yn wir na chaiff y Cynulliad ddeddfu i newid y swyddogaethau hynny heb gydsyniad Llywodraeth y DU.

**Y Casgliad**

45. Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dymuno cynnig y dylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phlant hawdd eu niweidio, yn nhermau'r Gorchymyn drafft a atodwyd.

**Gwenda Thomas**
**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol**

**8 Gorffennaf 2008**